


Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

# YMGYMRYD AG YMHOLIADAU PROFFESIYNOL

## Cyflwyniad ar gyfer Ymholwyr Arweiniol

MEDI 2019

EAS
Education Achievement Service for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service

## 1. 'Ymholi Proffesiynol'?

1.1 Mae hanes hir i annog athrawon i ymgymryd ag ymchwil ac ymholi. Hyrwyddwyd hyn yn gyntaf yn y 1970au gan Lawrence Stenhouse a wnaeth ddadlau pan fyddai athrawon yn ymgysylltu â datblygiad cwricwla, roedden nhw mewn gwirionedd yn ymchwilio i'w hymarfer nhw eu hunain (Stenhouse,1975).

1.2 Dros amser defnyddiwyd ystod o labeli i ddisgrifio ymchwil ac ymholi athrawon gan gynnwys 'ymarfer adfyfyriol' (Schon, 1983), 'ymchwil gweithredol' (Elliot, 1991), 'ymchwil ymarferwyr' (Zeichner a Noffke, 2001), 'ymholi cydweithredol' (Bray, 2000), 'ymholi beirniadol' (Aaron et al, 2006), 'ymchwil athrawon' (Cochran-Smith a Lytle, 1993 a 1999; MacLean a Mohr, 1999) ac 'ymholi cydweithredol beirniadol' ( Drew, Priestley a Michael, 2016).

1.3 Daeth y dull a fabwysiadwyd gan Marilyn Cochran-Smith yn ddylanwadol iawn. Mae'n dadlau y dylai athrawon ddatblygu '*inquiry as stance*': mewn geiriau eraill dylai hyn ddod yn rhan hanfodol o'u hymarfer proffesiynol a fydd yn eu galluogi i fod ag 'asiantaeth' o fewn y system addysg. Mae'n ystyried bod hyn:

''… nid yw'n ddancaniaeth gweithredu o'r brig-i-lawr nac o'r gwaelod-i-fyny ond yn un organig a democrataidd a fydd yn gosod gwybodaeth ymarferwyr, ymarferwyr a'u rhyngweithiadau gyda myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yng nghanol trawsnewid addysgol'' (Cochran-Smith a Lytle, 2009:123-124).

1.4 O dan y gwahanol ffurfiau hyn, mae'r hyn rydym wedi penderfynu ei alw yn 'ymholi proffesiynol' yng Nghymru wedi dod yn elfen sefydledig o ymarfer proffesiynol ac o astudio addysg o fewn Prifysgolion yn y DU (Furlong, 2013). Bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban yn hyrwyddo'r diffiniad canlynol o ymholi proffesiynol:

" 'Proses ganfod' neu ymchwiliad â sail resymegol iddo a ffordd o fynd ati y gellir ei hesbonio neu ei hamddiffyn. Yna gellir rhannu'r canfyddiadau fel y daw hi'n fwy nag adfyfyriad neu ymholiad personol''.

## Ymholi Proffesiynol yng Nghymru

1.5 Gellid dadlau am beth amser yng Nghymru y cafodd yr ymarfer proffesiynol y bydd athrawon yn ei ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth ei benderfynu i raddau helaeth iddyn nhw gan rannau eraill o'r system addysg: yr hyn rydyn ni'n cyfeirio ato ar hyn o bryd yn ddwy haen arall y tair haen o fewn y system addysg[1]. Wrth gwrs mae'n synhwyrol bod athrawon yn sicrhau bod eu hymarfer "wedi'i oleuo gan dystiolaeth" drwy bwyso ar dystiolaeth ymchwil ac arolygiadau a'r ffordd y caiff hyn ei gyflwyno iddyn nhw gan lywodraeth leol a chanolog. Gellid dadlau, fodd bynnag, bod athrawon wedi dod yn rhy ddibynnol ar dderbyn gwybodaeth a chyngor "oddi uchod" a hynny heb gael digon o gyfle i wneud eu hymholiadau nhw eu hunain er mwyn i'w gwybodaeth broffesiynol fod wedi'i goleuo nid yn unig gan dystiolaeth o rywle arall ond hefyd drwy gael eu defnyddio a'u profi yn eu dosbarthiadau a'u hysgolion nhw eu hunain. Mae tystiolaeth gref i awgrymu y bydd athrawon, fel gweithwyr proffesiynol eraill, yn cael bod hwn yn un o'r ffurfiau mwyaf effeithiol o ddatblygu proffesiynol (Gilchrist, 2018).

1.6 Am y rhesymau hyn, mae Llywodraeth Cymru a'r Consortia Addysg Rhanbarthol wedi mabwysiadu ymholi proffesiynol yn bendant yn elfen allweddol o fewn y *Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol*[2] newydd a'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi* sy'n dod i'r amlwg. Mae'n nodwedd o fewn y prosiect *Ysgolion yn Sefydliadau sy'n Dysgu* a, thrwy waith yr Arloeswyr Dysgu Proffesiynol, bydd yn cael ei ddefnyddio o fewn datblygiad y cwricwlwm newydd. Y gobaith yw y bydd yn dod yn elfen hefyd yn agwedd newydd Hunan-Werthuso a Gwella Estyn tuag at arolygiadau ysgol ac atebolrwydd ehangach y system.

1.7 Yn dilyn rhaglen beilot yn 2018-2019 ac adroddiad a luniwyd gan y tair Prifysgol yn gweithio gyda'r arloeswyr dysgu proffesiynol[3], bydd yr arloeswyr yn ymgymryd â rhagor o waith yn 2019-2020 i gael datblygu eu sgiliau a'u profiad er mwyn dod yn *Ymholwyr Arweiniol*. Y bwriad yw y bydd ganddyn nhw mewn blynyddoedd i ddod rôl flaenllaw o fewn rhaglen genedlaethol o ymholi proffesiynol a fydd yn cynnwys mwy o athrawon hyd yn oed. Felly, daw ymholi proffesiynol yn rhan sefydlog o ymarfer proffesiynol yng Nghymru ac yn hwyluswr allweddol y cwricwlwm ysgol newydd ac elfennau eraill o bolisi addysgol.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2017). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[2] Llywodraeth Cymru (2018). Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

[3] Egan, D., Evans, G. a Hughes, C. (2019). Developing Teacher Professional Enquiry in Wales.

## Pam Ymholi Proffesiynol?

1.8 Manteision athrawon yn ymgymryd ag ymholi proffesiynol yw:

- Mae'n galluogi athrawon ac ysgolion i archwilio syniadau addysgol newydd a datblygiadau yn eu sefyllfaoedd nhw eu hunain.
- Mae'n galluogi pob aelod o gymuned yr ysgol – arweinwyr, athrawon, staff cymorth, dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach – i gymryd rhan a chael dweud eu dweud.
- Dylai fod yn gydweithredol – yn galluogi athrawon ac eraill i gydweithio i adnabod heriau a'r ffordd orau i'w goresgyn.
- Dylai fod yn broses barhaus yn hytrach nag yn ymgynghoriad neu'n adolygiad ar amserlen benodol.
- Mae'n adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad presennol athrawon a chydweithwyr eraill.
- Dylai ganiatáu i athrawon feirniadu eu hymarfer presennol ac archwilio i ddulliau newydd y bydd rhaid eu mabwysiadu yn y dyfodol.
- Mae'n caniatáu i athrawon ddatblygu eu gwybodaeth broffesiynol a thrwy hynny gael dod yn ymarferwyr mwy effeithiol yn y dyfodol.

## 2. AMLINELLU RÔL THEORÏAU MEWN YMHOLIADAU PROFFESIYNOL

Mae rôl gymhleth a chyffrous gan theorïau o fewn ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol. Wrth ddechrau gweithio gyda a thrwy theori, mae'n ddefnyddiol amlinellu'r hyn ydyw, yr hyn nad ydyw a'r hyn a allai fod.

Yn y bôn, mae theorïau yn debyg i galeidosgopau: lensys lle y gallwn wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Mae Bourdieu a Wacquant (1992) yn enghreifftio theorïau yn offer polymorffig na fydd yn ôl meddyliau Ball (2006, t.3) 'yn dweud wrthym sut i feddwl ond yn fy ngalluogi i feddwl ynglŷn â sut rwy'n meddwl'. O ganlyniad, mae gan theorïau rôl hollbwysig yn rhoi i ymholwyr proffesiynol y gallu i gynhyrchu cwestiynau, i wneud synnwyr o'r data a galluogi troi tystiolaeth yn ymarfer.

Pwynt allweddol arall yw cydnabod y myrdd o theorïau sydd ar gael i addysgwyr.  Bydd rolau gwahanol gan theorïau gwahanol. Er enghraifft, yn rhan o'n gwaith yn yr ysgol fe fuon ni'n defnyddio theorïau diwylliannol-gymdeithasol i gael gwneud synnwyr o brofiad athrawon a phobl ifanc o fewn addysg. Yn ogystal, oherwydd rhai o'n diddordebau bu rhaid gwyro i gyfeiriad theorïau seicolegol a fydd yn gallu ein helpu i ddeall ac i werthuso'r ymddygiad a'r prosesau gwybyddol sy'n sail i ddysgu. Mae cymaint o lensys damcaniaethol ar gael nes bod eu rhestru nhw i gyd yn drech na'r cyflwyniad bach yma.

Yn gysylltiedig â hyn mae amlygu yr hyn na ddylai theori fod. Weithiau caiff ei ystyried yn beth digon amwys, haniaethol, heb fawr o allu i gael ei gymhwyso i ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. O gael ei ddefnyddio'n wael neu o beidio â chael ei addysgu'n dda, gall y defnydd ar theori greu yr hyn a eilw Ball (2006, t.1) yn "siaced gaeth ganfyddiadol" a all rwystro'r gwaith meddwl a mygu ymarfer. Felly gall theori, o beidio'u drafod, fod yn dipyn o her. Rydym yn cydnabod yn llwyr ac wedi profi'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio theori. Eto, tra y bydd yr heriau hyn yn bod, ni ddylen nhw ein cymell i osgoi ymgysylltu â theori.

Rydym yn gobeithio y gwnawn gyda'n gilydd, drwy ein gwaith a'n trafodaethau, oresgyn rhai o'r heriau hyn o gylch theorïau a helpu i ddechrau eich defnydd ar theorïau yn y ffyrdd positif a awgrymir uchod. Bydd posibiliadau theorïau yn gorbwyso'r heriau. Bydd ymgysylltu'n sensitif â theorïau yn gwella'ch gwaith ymholi ac yn eich helpu'n adeiladol ac yn feirniadol i gael gwneud synnwyr o'r byd o'ch cwmpas.

## 3. DULLIAU YMHOLI: TROSOLWG

Gellir defnyddio ystod o ddulliau i ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol. Mae'r rhain wedi'u gosod isod a bydd adrannau yn y dyfodol yn edrych ar y rhain yn fwy manwl.

| Dull Ymholi | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| Holiaduron | • Gallai gyrraedd cynulleidfa fawr yn gyflym, e.e. drwy ebyst grŵp neu wefannau holiaduron ar-lein<br>• Cost isel os caiff ei gwblhau ar-lein<br>• Cwestiynau wedi'u codio ymlaen llaw yn ennyn atebion safonedig a fydd yn haws eu dadansoddi | • Gallai'r cyfraddau dychwelyd fod yn isel<br>• Gall holiaduron fod yn anghyflawn<br>• Dim gwarant y bydd y person cywir yn ateb y cwestiynau<br>• Anodd dilysu pa mor wir yw'r atebion |
| Arolygon | • Ffocws clir ar ddata empirig yn seiliedig ar arsylwadau yn y byd go iawn<br>• Yn gallu cynhyrchu llawer o ddata yn weddol gyflym<br>• Yn gallu apelio at gynulleidfa eang<br>• Yn gallu bod yn hawdd gweinyddu a chwblhau, e.e. defnyddio offer ar-lein | • Mae'n anochel y bydd manylion a dyfnder yn cael eu haberthu er mwyn ehangder<br>• Yn anodd i ymchwilwyr wirio gonestrwydd neu gywirdeb ymatebion |
| Adolygu'r Llenyddiaeth | • Rhoi gwybodaeth gefndirol ar gyfer pwnc yr ymholiad | • Mae'n bosib na fydd yr astudiaethau a adnabyddir yn berthnasol i ffocws yr ymholiad |


| | | |
|---|---|---|
| | • Canfod beth sy'n hysbys eisoes yn y maes ymholi hwn<br>• Osgoi dyblygu<br>• Yn gallu helpu i lunio cwestiynau ymholi | • Bylchau yn y wybodaeth<br>• Potensial i or-ddylanwadu ar y cwestiynau ymholi |
| Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws | • Gellir casglu gwybodaeth drylwyr<br>• Hyblyg iawn: gellir addasu'r sgwrs yn unol â'r ymatebion<br>• Cyfraddau ymateb uchel pan gaiff y cyfweliadau eu trefnu ymlaen llaw<br>• Gall cyfweleion ddweud a ydyn nhw'n ansicr neu heb deall<br>• Natur bersonol yn golygu bod ymatebwyr yn cael dweud yn bendant<br>• Gellir ystyried iaith y corff a chiwiau eraill | • Gall 'effaith y cyfwelydd' olygu y bydd data'n seiliedig ar yr hyn y bydd pobl yn ei ddweud yn hytrach na'r hyn y byddan nhw'n ei wneud<br>• Gall cyfweliadau fynd ag amser a bod yn drwm o ran adnoddau, e.e. teithio, cyfarpar<br>• Bydd yn anodd bod yn gyson ac yn wrthrychol gan fod y cyd-destun mor benodol<br>• Mae'n bosib na fydd rhai grwpiau yn awyddus i gael eu cyfweld, e.e. plant Sipsiwn/Teithwyr<br>• Perygl o ofyn cwestiynau arweiniol, e.e. 'Onid yw hi'n wir bod ...?' |
| Arsylwadau | • Gall lleoliadau naturiol sicrhau astudiaeth fwy realistig<br>• Gall amserlenni gael gwared ar duedd<br>• Mae'n bosib i arsylwyr cyfranogol weld | • Mae'n anodd i arsylwyr cyfranogol gadw nodiadau yn ystod yr arsylwadau<br>• Mae'n fwy anodd i arsylwyr na fydd yn cyfrannu weld pethau o bersbectif y grŵp |

| | | |
|---|---|---|
| | pethau o bersbectif y grŵp<br>• Gall recordio arsylwadau ar fideo ysgogi trafod ac adfyfyrio agored | • Bydd dadansoddi casgliadau o'r defnydd ar dechnolegau, megis recordiadau clyweled, yn draul ar amser |
| Astudiaethau Achos | • Yn rhoi gwybodaeth drylwyr<br>• Yn dal cymhlethdodau sefyllfaoedd cymhleth<br>• Yn defnyddio ffynonellau lluosog sy'n ychwanegu hygrededd | • Mae'n anodd cyffredinoli ac mae'n bosib na fydd yn gynrychiadol<br>• Yn ymarferol anodd trafod a chytuno ar fynediad weithiau<br>• Mae atgofion unigolion yn rhai detholus a gallen nhw fod yn anghywir |
| Arbrofion (gan gynnwys hap-dreialon wedi'u rheoli) | • Mae'n anodd i arsylwyr cyfranogol gadw nodiadau yn ystod yr arsylwadau<br>• Mae'n fwy anodd i arsylwyr na fydd yn cyfrannu weld pethau o bersbectif y grŵp<br>• Bydd dadansoddi casgliadau o'r defnydd ar dechnolegau, megis recordiadau clyweled, yn draul ar amser | • Materion moesegol wrth ddefnyddio grwpiau rheoli a grwpiau arbrofol<br>• A yw'r amodau mewn lleoliadau artiffisial yn gallu cael eu dyblygu yn y 'byd go iawn' |

Yn seiliedig ar Grigg, R. (2015). *Gwneud Defnydd Effeithiol ar Ddata a Thystiolaeth Ymchwil*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## 4. DATBLYGU CWESTIYNAU YMHOLI

4.1 Bydd yn bwysig cynllunio'ch ymholiad, eich cwestiynau ymholi a'r methodolegau rydych yn mynd i'w defnyddio, yn ofalus. Mae'r cyngor isod yn seiliedig ar gyfres o gyhoeddiadau hygyrch iawn a gynhyrchwyd gan yr NFER ar ymchwil ymarferwyr ac fe gewch ragor o wybodaeth yma https://www.nfer.ac.uk/how-to-guides-collection




Ffigur 2: Camau i gynllunio ymholiadau

### Diffinio Maes a fydd o Ddiddordeb

4.2 O dderbyn ffocws ein gwaith, dylai hyn fod yn berthnasol i'r cwricwlwm ysgol newydd yng Nghymru, a'i lunio o:

- Un neu fwy o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Dimensiwn traws-gwricwlaidd
- Y fframwaith dilyniant
- Pedagogeg dysgu ac addysgu

4.3 Byddai'n synhwyrol i hyn gael bod yn rhywbeth a fydd o ddiddordeb i chi a bydd wedi dod i'r amlwg yn naturiol o'ch profiad yn yr ystafell ddosbarth. Bydd bwydlen genedlaethol pynciau ymholi yn rhoi canllawiau pellach i chi ar hyn.

## Culhau Ffocws yr Ymholi

4.4 Mae'n synhwyrol bob amser culhau'r maes sydd o ddiddordeb i chi, i ffocws ar gyfer ymholi y gellir ymdopi â fe a/neu i ystyried a fyddwch am dorri'r maes yn is-bynciau y gallech eu harchwilio dros gyfres o ymholiadau.

4.5 Er enghraifft, gallai eich maes diddordeb fod sut gellir datblygu dysgu dilys o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (rhywbeth a gafodd ei nodi yn y fwydlen genedlaethol). Gallai fod yn synhwyrol gyfyngu hyn i un o ddatganiadau'r Hyn sy'n Bwysig o fewn cyd-destun eich cyfnod chi eich hunan a gyda grŵp blwyddyn penodol. Os byddwch am ymestyn y gwaith hwn wedyn i ymholiadau yn y dyfodol, gallech symud i ddatganiad arall o'r Hyn sy'n Bwysig neu i grwpiau blwyddyn eraill a hyd yn oed draws-gyfnod.

4.6 Bydd eich person cyswllt ym Met Caerdydd yn eich llywio drwy'r broses hon.

## Datblygu eich Cwestiwn/Cwestiynau Ymholi

4.7 Dylai eich cwestiynau ymholi fod yn glir, yn bendant ac yn diffinio paramedrau eich gwaith. Ceir tri math o gwestiwn fel arfer:

- Cwestiynau **Beth** a fydd yn mynd i'r afael ag effeithiolrwydd agwedd benodol tuag at bedagogeg. Gallai 'Beth oedd canfyddiadau disgyblion Blwyddyn 8 o ran manteision dysgu dilys wrth fynd i'r afael â Datganiad 1 o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau?' fod yn enghraifft.
- Cwestiynau **Sut** a fydd yn archwilio'r defnydd ar bedagogegau penodol a'r effaith a gân nhw ar ddysgu. Gallai 'Sut gwnaeth defnyddio dysgu dilys ddylanwadu ar ddealltwriaeth disgyblion Blwyddyn 3 o Ddatganiad 1 o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau?' fod yn enghraifft.
- Cwestiynau **Pam** a fydd yn archwilio'r rhesymau dros ganlyniadau pedagogaidd penodol. Gallai 'Pam gwnaeth dysgu dilys, o'i ddefnyddio i archwilio Datganiad 1 o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, arwain at ddilyniant yn nysgu rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 ond nid y disgyblion i gyd?' fod yn enghraifft.

Yn seiliedig ar Blake, N. (2010). *Designing Social Research*

## Dewis eich Dulliau Ymholi

4.8 Yn aml bydd ymchwilwyr addysgol yn defnyddio dull cymysg a fydd yn defnyddio tystiolaeth **feintiol** (data rhifiadol y gellir eu dadansoddi drwy ddulliau mathemategol) ac **ansoddol** (data wedi'u cael oddi wrth fodau dynol a'u dealltwriaeth o'r byd). Er y gallech fod am ddefnyddio data rhifiadol, rhagdybir yma y gwneir y rhan fwyaf o'ch gwaith ymholi drwy ddefnyddio data ansoddol.

4.9 Mae ystod y data ansoddol a allai fod ar gael i chi wedi'i rhestru yn adran 2 uchod a chaiff ei harchwilio ymhellach yn adran 4 isod. Bydd dewis pa un o'r dulliau hyn i'w ddefnyddio yn arwain at ddyluniad eich ymholiad.

4.10 Dylai'r canlynol gael eu hystyried wrth ddewis eich dulliau ymholi / dyluniad yr ymholi:

- *Eich cwestiwn/cwestiynau ymholi*. Os ydych am gael gwybod beth oedd canfyddiadau'r disgyblion ynglŷn â dysgu dilys, mae'n synhwyrol defnyddio cyfweliadau a/neu grwpiau ffocws. Os ydych yn ceisio cael gwybod pam gwnaeth dysgu rhai plant ddatblygu mwy nag eraill drwy ddefnyddio dysgu dilys, byddai'n dda pe baech yn defnyddio arsylwadau, astudiaethau achos a chyfweliadau.
- *Eich cyfranogwyr*. Ni fyddai arolygon ar-lein yn addas iawn i gynnal ymholiadau gyda phlant ifancach, ond gallai fod o fwy o werth gyda phlant hŷn, ynghyd â grwpiau ffocws.
- *Ystyriaethau ymarferol* gan gynnwys yr amser a fydd ar gael i chi.

4.11 Ym mhob enghraifft, mae'n synhwyrol dechrau gydag adolygiad o'r llenyddiaeth i gael darganfod beth sy'n hysbys eisoes a beth sydd heb ei wybod yn eich maes ymholi. Bydd y dulliau a ddefnyddir gan awduron y llenyddiaeth y byddwch yn cyfeirio atyn nhw yn rhoi syniadau i chi hefyd am eich dulliau ymholi posib chi eich hunan.

## Cyfranogwyr

4.12 Mae enghreifftiau o grwpiau posib o ddisgyblion i gymryd rhan wedi'u rhoi uchod. Mae'n bosib, wrth gwrs, y byddwch yn canolbwyntio'ch ymholiadau ar athrawon a staff cymorth neu ar gymysgedd o gyfranogwyr a fydd yn oedolion ac yn ddisgyblion. Gallech hefyd fod am estyn allan y tu hwnt i'ch ysgol i rieni neu i sefydliadau yn y gymuned a allai gefnogi'r cwricwlwm newydd a/neu ddysgu proffesiynol.


4.13 Beth bynnag fydd y gymysgedd o gyfranogwyr y byddwch wedi'i ddewis, fe fydd problemau ymarferol o gylch sut y byddwch yn casglu ac yn storio eich data. Cafodd y problemau hyn eu hystyried yn ystod proses yr ymholi proffesiynol y llynedd a chân nhw eu hail-ystyried eto eleni. Roedd canllawiau'r NFER a argymhellir uchod hefyd yn rhoi cyngor defnyddiol i chi ar y materion hyn.

# 5 DEFNYDDIO DULLIAU YMHOLI

## Adolygiadau o'r Llenyddiaeth

5.1 Mae llawer peiriant chwilio ar gael y gallwch eu defnyddio i wneud adolygiad o'r llenyddiaeth – mae manylion yn Atodiad 1. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio *EBSCO* sydd ar gael i chi drwy wefan Cyngor y Gweithlu Addysg. Bydd defnyddio hwn yn aml ac ymgyfarwyddo â'i gyfleusterau yn eich galluogi i ddatblygu eich sgiliau chwilio.

5.2 Dyma'r camau y dylid eu dilyn wrth ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r llenyddiaeth. Byddwn yn rhoi rhagor o gyngor i chi ar sut i wneud hyn a gallwch gael toreth o wybodaeth ymarferol ar Google. Isod ceir y camau allweddol yn y broses:




Ffigur 3: Y camau mewn adolygiad o'r llenyddiaeth

## Cyfweliadau

5.3 Mae cyfweliadau yn ffordd uniongyrchol i gael mynediad i wybodaeth ac i'ch galluogi i ofyn ystod o gwestiynau ac i archwilio'n drylwyr. Yn aml bydd ymatebwyr yn teimlo'n fwy cyffyrddus ac yn fwy parod i gynnig gwybodaeth ddefnyddiol nag y bydden nhw mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol. Bydd angen i chi ddatblygu eich sgiliau cwestiynu a bydd yn werth arbrofi â'r cwestiynau ymlaen llaw. Bydd angen i chi gydnabod na allwch osgoi tuedd yn gyfan gwbl yn y ffordd y byddwch yn cynnal cyfweliadau neu'n dehongli'r canfyddiadau ac y bydd hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y cyfweliadau.

5.4 Er ei bod yn bosib cynnal cyfweliadau rhydd lle y cewch sgwrs ryngweithiol, mae'n well cynnal cyfweliadau lled-strwythuredig. Bydd hyn yn gofyn i chi lunio amlinelliad o'r cwestiynau y byddwch am eu gofyn ac i rannu'r rhain gyda'r cyfwelai. Ni fydd hyn yn eich rhwystro rhag gofyn cwestiynau dilynol ac ychwanegol.

5.5 Er y gallech gadw nodiadau o'r cyfweliad, rydym yn eich cynghori i gael caniatâd y cyfwelai i recordio'r cyfweliad. Bydd hyn yn eich galluogi i drawsgrifio'r cyfweliad a'r posibilrwydd y gallech ddefnyddio technegau codio i'w ddadansoddi.

## Grwpiau Ffocws

5.6 Bydd y rhain yn eich galluogi i gasglu data oddi wrth grŵp mwy o unigolion nag y byddai cyfweliadau un-i-un yn ei wneud ac i greu dynameg grŵp a allai gynhyrchu gwybodaeth fwy cyfoethog. Dydyn nhw ddim mor hawdd â chyfweliadau sengl i'w rheoli, gan ei bod yn bosib y gallen nhw wyro oddi ar y cyfeiriad iawn. Mae'n bosib na fydd rhai ymatebwyr yn teimlo'r un mor gyffyrddus yn rhoi gwybodaeth ag y bydden nhw mewn cyfweliad un-i-un. Gall swm y data a gesglir fod yn anodd ei ddadansoddi hefyd.

5.7 Yn debyg i gyfweliadau, mae angen i chi ddatblygu'ch sgiliau cwestiynu bwriadol a chadw'r sgwrs heb wyro. Mewn grwpiau ffocws mae angen hefyd i chi sicrhau bod cyfle gan y cyfranogwyr i gymryd rhan ac na fydd rhai yn cael dominyddu'r drafodaeth.

5.8 Dylech ddilyn yr un math o brosesau er mwyn paratoi ar gyfer grwpiau ffocws a'u cofnodi ag y byddech ar gyfer cyfweliadau.

## Arsylwadau

5.9 Gall arsylwi cyd-destunau dysgu ac addysgu, gan gynnwys sgyrsiau rhwng disgyblion ac athrawon, olygu y gall data gwerthfawr iawn gael eu casglu mewn sefyllfaoedd naturiol. Y ffordd orau fyddai i chi ddod yn rhan o'r grŵp a fydd yn cael ei astudio, a gwneud hynny'n agored neu'n gudd.

5.10 Gall arsylwi wrth gwrs arwain i'r rhai a fydd yn cael eu harsylwi newid eu hymddygiad. Gall arwain hefyd at lawer o ddata'n cael eu casglu a fydd yn anodd eu dadansoddi. Mae problemau hefyd o ran pa mor anodd y gallai 'cyffredinoli' data fod.

5.11 Mae arsylwi strwythuredig yn ffordd o oresgyn rhai o'r heriau hyn. Bydd hyn yn gofyn strwythurau, wedi'u datblygu ymlaen llaw, a fydd yn galluogi'r hyn a arsylwir i gael ei ddal mewn ffordd systematig. Dylid gwneud hyn mewn ffordd anymwthiol a bydd yn cymryd amser.

## Astudiaethau Achos

5.12 Bydd hyn yn golygu edrych ar rai elfennau o ddysgu ac addysgu yn drylwyr, mewn un ystafell ddosbarth neu grŵp o ddisgyblion siŵr o fod. Bydd angen gwneud hyn dros gyfnod parhaus o amser er mwyn casglu data gwerthfawr.

5.13 Er y gallai fod yn bosib cyffredinoli astudiaethau achos, eu gwerth yw dal sefyllfa dysgu ac addysgu hynod ac unigryw.

## Arolygon


5.14 Gall arolygon a wneir drwy gyfrwng holiaduron copi-caled neu arolygon ar-lein fod yn ffordd effeithiol o ddal gwybodaeth feintiol sylfaenol. Yn ogystal, byddan nhw'n galluogi pobl i aros yn ddi-enw.

5.15 Mae'n aml yn anodd cael ymatebion da i arolygon a bydd hyn yn cwtogi ar ba mor gynrychiadol a dilys y byddan nhw. Ni fyddan nhw'n dal cymhlethdod y meysydd sy'n cael eu hymchwilio hefyd nac yn caniatáu cwestiynau dilynol.

5.16 Bydd canllawiau'r NFER y cyfeirir atyn nhw uchod yn rhoi cyngor ymarferol da i chi ar ddefnyddio dulliau arolygu.

## 6 SBIRALAU YMHOLI: ENGHRAIFFT O DDULL YMHOLI PROFFESIYNOL

6.1 Datblygwyd y dull ‘sbiral ymholi’ ar gyfer ymholi proffesiynol gan athrawon ac arweinwyr ysgolion yn British Columbia, Canada a chaiff ei ddefnyddio bellach mewn sawl rhan arall o’r byd gan gynnwys Awstralia. Mae’r sbiral a’i chydrannau i’w gweld yn y diagram isod:




Ffigur4: ‘Sbiral Ymholi’: Timperley, Kaser a Halbert (2014).

6.2 Mae’r dull hwn yn tybied y bydd athrawon a fydd â meddylfryd chwilfrydig ac ymholgar yn ymgymryd â gwaith cydweithredol yn eu hysgolion er mwyn ceisio deall a datrys problemau cyffredin neu heriau y byddan nhw’n eu hwynebu.

6.3 Yng nghyd-destun datblygu ymholiad proffesiynol, bydd hyn yn ymwneud â’r materion a fydd yn gysylltiedig â chyflwyno’r cwricwlwm newydd, gan gynnwys:

- Sut, drwy’r broses o ‘lunio cwricwlwm’, y bydd athrawon ac ysgolion yn datblygu fersiwn o’r cwricwlwm a fydd yn addas ar gyfer anghenion lleol?

- Y goblygiadau ar gyfer pedagogeg dysgu ac addysgu yn y dyfodol

- Y cyfleoedd dysgu proffesiynol y bydd eu hangen ar gyfer athrawon a staff cymorth

## Sganio

6.4 Bydd y cam hwn yn cynnwys adnabod cwestiynau ymholi eang o'r math a fydd yn cael eu cynnwys yn y ddewislen genedlaethol ar gyfer ymholi proffesiynol sydd yn cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru.

6.5 Gallai hyn gynnwys datblygu cwestiynau wedi'u halinio i'r themâu isod a adnabuwyd gan arloeswyr dysgu proffesiynol mewn digwyddiad yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2019:

### Cynllunio Cwricwlwm

- Sut bydd disgyblion yn gwneud cysylltiadau ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Cynllunio effeithiol na fydd yn effeithio ar faich gwaith
- Prosesau dylunio cwricwlwm
- Cyd-gynllunio cynradd/uwchradd
- Neilltuo amser cwricwlwm ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Cynllunio sgiliau, profiad a gwybodaeth
- Cynllunio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad
- Ymgorffori'r 4 diben yn y cynllunio o ddydd i ddydd

### Pedagogeg

- Dysgu cydweithredol i gael adeiladu annibyniaeth a gwytnwch disgyblion
- Datblygu dilyniant ar draws clwstwr 3-16
- Cyfleoedd ar gyfer dysgu awyr agored
- Creadigrwydd – beth yw e a sut gellir ei asesu

- Pedagogeg ar draws clystyrau
- Elfennau positif a negyddol pedagogegau penodol ar gyfer grwpiau oedran gwahanol
- Pedagogeg generig a phedagogeg Meysydd Dysgu a Phrofiad benodol
- Ymholiad dan arweiniad disgyblion

**Ffocysu**

6.6 Os yw ymholi proffesiynol i mynd i fod yn ystyrlon, nodwyd yn gynt y bydd angen torri'r themâu hyn i lawr i gwestiynau ymholi penodol.

6.7 Er enghraifft, er mwyn archwilio thema cyd-gynllunio cynradd/uwchradd, dylid canolbwyntio ar y cwestiynau ymholi canlynol:

- Sut gellid cynllunio Yr Hyn sy'n Bwysig 1 ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (neu unrhyw faes arall) ar gyfer yr ystod oedran 3-16 mewn un clwstwr ysgolion?

- Beth fyddai manteision bod athrawon, staff cymorth a disgyblion yn cyd-gynllunio cynllun gwaith ar gyfer un Maes Dysgu a Phrofiad ar draws Bl 6 a Bl 7 o fewn clwstwr ysgolion?

- Pam bydd disgyblion MAT o gefndiroedd mwy difreintiedig yn elwa o gyd-gynllunio cynradd/uwchradd ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles?

6.8 Gallai'r canlynol fod yn gwestiynau ymholi priodol a fydd yn galluogi culhau un o'r themâu ar bedagogeg: pedagogegau priodol ar gyfer grwpiau oedrannau gwahanol:

- Sut gellir adnabod pedagogegau addas ar gyfer dysgu ac addysgu o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol?
- Beth fydd disgyblion Bl 7 a Bl 10 yn ystyried yw'r pedagogegau mwyaf priodol ar gyfer eu dysgu o fewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg?
- Pam bydd disgyblion cynradd ac uwchradd yn ymateb yn wahanol i'r defnydd ar ddysgu dilys mewn Mathemateg a Rhifedd?

## Datblygu rhyw Deimlad (Hynsh)

6.9 Wrth i athrawon fagu profiad, byddan nhw'n datblygu gwybodaeth reddfol (yr hyn a elwir weithiau yn 'wybodaeth grefft') ynglŷn â'r hyn y tybir iddo fod yn gweithio neu beidio mewn addysgu a pham bydd rhai disgyblion yn dysgu'n ddi-ymdrech pan na fydd eraill yn gwneud hynny. Yn aml, fodd bynnag, ni fyddan nhw'n herio neu'n profi'r tybiaethau hyn i gael gweld a oes cronfa dystiolaeth gadarn ganddyn nhw.

6.10 Mewn enghreifftiau eraill, bydd yr athrawon yn cydnabod y gall rhai o'r pethau a wnân nhw weithio gyda rhai disgyblion ond ddim gyda disgyblion eraill, neu y bydd rhai disgyblion yn ymateb yn dda i rai sbardunau ond na fydd disgyblion eraill tebyg yn gwneud hynny. Maen nhw'n gwybod bod amgylchiadau heb eu hesbonio ar waith, ond yn aml ni fyddan nhw'n rhoi'r amser i gael gweld a allen nhw ddod i wybod beth yw'r rhain.

6.11 Yn yr enghreifftiau hyn y gallai neilltuo'r amser i ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol fod yn gynhyrchiol: herio tybiaethau  a chael hyd i atebion posib. Wrth wneud hyn mae'n aml yn syniad da dechrau gyda rhyw deimlad/hynsh, neu'r hyn a elwir weithiau yn 'gosfa broffesiynol'. Mae athrawon yn aml yn wyliadwrus ynglŷn â chysyniad 'theori' mewn ymarfer addysg, er bod damcaniaethau ymarferol gan lawer ohonyn nhw ynglŷn â pham bydd pethau'n digwydd yn eu hystafell ddosbarth. Gallai hyn fod ar lefel yr effaith y gallai mathau gwahanol o dywydd ei chael ar blant, hyd at gydnabod pan fydd plant yn wynebu materion yn ymwneud â'u lles, a fydd yn gysylltiedig bron bob amser â materion y tu allan i'r ysgol, y bydd hyn yn effeithio ar eu dysgu.

6.12 O ran ymgymryd ag ymholiadau proffesiynol i'r cwricwlwm newydd a dysgu proffesiynol, bydd defnyddio'r teimladau/hynshis hyn i adnabod themâu ymholi yn gyfle da i'w harchwilio o ran y posibiliadau a gynigir gan y dulliau newydd y byddan nhw'n eu cyflwyno i'r ysgolion.

## Dysgu Newydd

6.13 Yn eu gwerthusiadau ar ddiwedd 2018-2019, roedd rhai o'r arloeswyr yn gofyn yn ddigon teg beth fyddai canlyniadau'r gwaith roedden nhw wedi'i wneud? Y gobaith yw y bydd hyn yn effeithio ar ddatblygiad ehangach y cwricwlwm a'r Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r bwriad yw y bydd y gwaith a wneir yn 2019-2020 yn cael mwy o effaith hyd yn oed yn y cyswllt hwn.

6.14 Os ydyn nhw'n mynd i gael yr effaith y dylen nhw fod yn ei chael, fodd bynnag, dylai hyn arwain at newidiadau yn yr ymarfer yn yr ysgolion a oedd yn cyfrannu i waith yr arloeswyr dysgu proffesiynol: yn eu hysgolion nhw eu hunain ac yn yr ysgolion clwstwr lle y byddan nhw'n cyd-weithio er mwyn cyflawni ymholiadau. Gallai hyn fynnu newidiadau – rhai sylweddol o bosib – yn yr ymarfer presennol yn yr ysgolion hyn fel y bydd cyfle gan y cwricwlwm newydd i arwain at brofiadau eithriadol i'r dysgwyr.

## Gweithredu

6.15 Os yw'r dysgu newydd a gaiff ei adnabod drwy ymholi proffesiynol yn mynd i fod yn ystyrlon, bydd rhaid gweithredu arno yn gyflym. Bydd penseiri'r dull 'sbiral ymholi' yn credu os na fydd 'dim yn newid o ran gweithredu o fewn dwy neu dair wythnos, mae'n debygol na fydd yn digwydd' (Timperley, Kaser a Halbert, 2014:18). Mae'n amlwg y bydd hyn yn mynnu penderfyniad ar ran arweinwyr ysgolion a rhywfaint o sicrwydd y bydd y dystiolaeth a geir drwy'r broses ymholi yn cynnig sail gadarn ar gyfer gweithredu.

6.16 Bydd rhaid i arweinwyr ddwyn perswâd ar staff, rhieni ac, o bosib, ar ddysgwyr bod yr hyn y maen nhw'n ei weithredu yn debygol o arwain at welliannau y gellir eu gweld. Bydd angen iddyn nhw hefyd fonitro'n fanwl yr effaith y bydd y newidiadau a gyflwynwyd yn ei chael ar ddysgwyr a chydnabod y bydd rhai aelodau o'r staff yn gallu teimlo'n fregus oherwydd y newidiadau hyn ac, felly, bydd angen adeiladu ymddiriedaeth.

## Gwirio

6.17 Unwaith y gwneir newidiadau yn sgil ymholi proffesiynol, ni ellir tybied bod y broses ymholi wedi'i chwblhau. Bydd angen monitro a gwerthuso trylwyr drwy broses ymholi barhaus er mwyn cael asesiadau gonest ar a wnaeth newid wella'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr ac ym mywyd proffesiynol athrawon.

6.18 Bydd angen cytuno ar fesurau effaith ar y dechrau, gan gynnwys canlyniadau meintiol ac ansoddol, fel y bydd ymholiadau yn gallu mesur effaith.

6.19 Gallai gwirio, mewn gwirionedd, fod yn ffordd arall o ail-sganio'r amgylchedd, o ddechrau proses ymholi newydd ar, o bosib, pam wnaeth pethau weithio'n dda wrth baratoi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ond nad oedd pethau eraill wedi gweithio hanner cystal. Mae'r broses yn un barhaus a dylai bod ag agwedd meddwl ymholgar ragdybied mai fel hyn y bu pethau erioed ac yn un o'i fanteision yn asiant ar gyfer newid ac arloesedd.

## ATODIAD 1: RHESTR DDARLLEN DDETHOL

British Educational Research Association (BERA). (2011). *Ethical Guidelines For Educational Research.* Ar gael yma: http://www.bera.ac.uk/publications/ethical-guidelines .

Campbell, A., McNamara, O. & Gilroy, P. (2004) *Practitioner Research and Professional Development in Education.* Llundain: Paul Chapman.

Cochran-Smith, M. a Lytle, S. (2009). *Inquiry As Stance.* Efrog Newydd: Teachers College Press

Drew, V., Priestley, M. a Michael, M.K. (2016). 'Curriculum development through critical collaborative professional enquiry', *Journal of Professional Capital and Community,* (1):92-106.

Gilchrist, G. (2018). *Practitioner Enquiry.* Abingdon: Routledge.

Halbert, J. & Kaser, L. (2013) *Spirals of Inquiry for Equity and Quality*, Vancouver: BCPVPA Press.

Hopkins. D. (2008) *A teacher's guide to classroom research,* Maidenhead: McGraw-Hill/Gwasg y Brifysgol Agored.

Kools, M. a Stoll, L. (2016). *What Makes A School A Learning Organisation?* Paris: OECD.

McAleavy, T. (2016). *Teaching as a research-engaged profession: problems and possibilities.* Llundain: Education Development Trust.

Menter, I., Elliot, D., Hulme, M., Lewin, J. a Lowden, K. (2011). *A Guide to Practitioner Research.* Llundain: SAGE.

McNiff, J. & Whitehead, J. (2005) *Action research for teachers: a practical guide.* Llundain: David Fulton.

Llywodraeth Cymru (2015) *Defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. (2018a) *Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## ATODIAD 2: SAFLEOEDD ADOLYGU LLENYDDIAETH

Best Evidence in Brief: www.beib.org.uk

Best Evidence Encyclopaedia www.bestevidence.org.uk

Campbell Collaboration https://campbellcollaboration.org/

Chartered College of Teaching https://chartered.college/

EBSCO https://search.ebscohost.com

Education Endowment Foundation www.educationendowmentfoundation.org.uk

EPPI -Centre https://eppi.ioe.ac.uk/cms/

Evidence for Impact www.evidence4impact.org.uk

Research Schools Network https://researchschool.org.uk/

Teacher Development Trust https://tdtrust.org/

What Works Clearinghouse https://ies.ed.gov/ncee/wwc/

## ATODIAD 3:

## ADFYFYRIO AR BROSIECT YMCHWILGWEITHREDOL: GWELLA DEALLTWRIAETH TERMINOLEG GELFYDDYD GYDA DOSBARTH BLWYDDYN 8 ISEL EU GALLU

*Hannah Thomas: Ysgol Ioan Fedyddiwr, Aberdâr a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd*

*Wales Journal of Education (2017) 19:1*

Dechreuodd y prosiect â phryder eang i wella adborth, ond fe wnaeth ganolbwyntio mwy a mwy ar hyd cyfnod yr ymchwil ar fy nghwestiwn ymchwil, sef *‘Sut gall asesu ffurfiannol gael ei weithredu mewn lleoliad celf ADY i hyrwyddo a hwyluso dysgu annibynnol yn effeithiol?’*

Dewisais weithio gyda’r disgyblion yn fy nosbarth blwyddyn 8 isel eu gallu, am fy mod yn teimlo nad oeddwn yn deall eu rhwystrau i ddysgu ac felly nad oeddwn yn darparu cynnwys priodol ac felly hefyd roedden nhw’n derbyn profiadau dysgu gwahanol. Pan gaiff disgyblion eu hadnabod yn rhai ‘llai abl’, mae Hart et al. (2004, yn Wilson 2009: 17) yn cwestiynu a ydyw yn sylwad ar eu gallu i ddysgu, ac rwy’n credu bod perygl y gall y label ‘isel eu gallu’ greu problem i ddisgwyliadau’r disgyblion amdanyn nhw eu hunain, ac roedd hwn yn rheswm pellach dros fy mhenderfyniad i weithio gyda nhw.

Caiff disgyblion eu gosod yn y dosbarth isel eu gallu o ganlyniad i brofion; caiff Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) eu rhoi iddyn nhw a byddan nhw’n derbyn lefelau gwahanol o gymorth ychwanegol. Mae maint y dosbarth yn hanner maint dosbarth prif ffrwd ac mae’n gweithredu yn ‘grŵp meithrin’ sy’n caniatáu treulio mwy o amser gyda’r disgyblion a’r nod fydd cael y disgyblion i symud nôl i’r dosbarthiadau prif ffrwd.

Roedd data sylfaenol y dosbarth yn dweud bod sgoriau eu Prawf Darllen Cenedlaethol yn is na’r rhai eraill yn y dosbarthiadau prif ffrwd gan mai sgôr gyfartalog y dosbarthiadau prif ffrwd yw 110 a’r cyfartaledd yn y dosbarth hwn yw 82. Yn ôl y canllawiau a roddir gan yr ysgol, bydd sgôr o 70-85 yn cael ei hystyried yn ‘gyfartaledd isel’. Dangosodd hyn yr angen posib am hyfforddi gwahaniaethol yn ogystal ag adborth.

Fe wnaeth yr ymyriad terfynol ddau newid sylweddol yn fy ymarfer. Y newid cyntaf oedd dylunio ‘sticer’ a oedd yn defnyddio ciwiau gweledol i gael gwneud adborth yn fwy cryno. Yr ail oedd cynhyrchu sawl enghraifft o waith celf cyflawn, a oedd yn amrywio o rai gwael hyd at rai rhagorol. Roedd y dull hwn o ddarparu nodau gwersi a meini prawf llwyddiant i’r disgyblion yn ddull mwy gweledol. Llwyddodd y system hon i gael y disgyblion i adfyfyrio’n feirniadol ar eu gwaith eu hunain ac ar waith eu cyfoedion. Drwy wneud hyn, fe wnaeth alluogi’r disgyblion i blannu gwybodaeth am dermau allweddol celf drwy ysgrifennu, llafaredd a chreu gwaith celf; gan wella’u hyder a dysgu annibynnol; a gwella eu gallu i siarad ac i werthuso gwaith eu cyfoedion.

Yn yr erthygl hon, byddaf i ddechrau yn trafod yn gryno fy null methodolegol a’r llenyddiaeth allweddol a wnaeth oleuo’r penderfyniadau a wnes. Yna byddaf yn trafod y canfyddiadau, a rhoi mwy o fanylion ar y broses o ddatblygu’r ymyriad. I gloi, rwyf yn ystyried mor bwysig yw ymchwil gan ymarferwyr ar gyfer athrawon ac addysgu.

*Methodoleg*

Ar gyfer fy ymchwil, penderfynais fabwysiadu dull ansoddol yn bennaf ar gyfer casglu data. Fe wnes i hyn oherwydd natur Celf a Dylunio ac mai nod pennaf fy ymchwil oedd mesur ac asesu dilyniant y disgyblion, eu gwybodaeth artistig a'u hagwedd tuag at ddysgu, y mae pob un o'r pethau hyn yn anodd eu mesur yn feintiol. Hefyd roedd yr ymholiad yn seiliedig ar gael mewnwelediad i agwedd a chanfyddiad athrawon a disgyblion o ran arferion adborthi cyfredol yn yr ysgol. Mae hyn yn gofyn am ddehongliad 'mwy swmpus' o farn y cyfranogwyr, sef prif swyddogaeth data ansoddol (Bell, 2010). Casglwyd y data drwy ddefnyddio cyfweliadau 1-1 wedi'u recordio, holiaduron, sgyrsiau wedi'u strwythuro a heb eu strwythuro, a thaflenni gwaith (a oedd yn cynnwys dechreuwyr brawddegau, brawddegau 'cloze' a chwestiynau hunan-asesu er mwyn deall a oedd y disgyblion yn gallu defnyddio termau yn y cyd-destunau cywir). Cafodd y rhain eu cyflawni cyn, yn ystod ac wedi'r ymyriad, yn ystod y gwersi. Fe wnes i gadw dyddlyfr hefyd er mwyn cael adfyfyrio ar bob rhan o'r ymchwil. Dywed BERA (2011: 5) y 'dylai unigolion gael eu trin mewn ffordd deg, sensitif, ag urddas, gan eu parchu a sicrhau eu bod yn rhydd o wahaniaethu'. Felly cafodd pob un o'r disgyblion yn y dosbarth (un deg tri) eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil, ond roedd angen iddyn nhw gydsynied. Cawson nhw eu hatgoffa hefyd yn ystod y cyfweliadau a'r holiaduron y gallen nhw adael yr ymchwil ar unrhyw bryd. Fe wnes i gyflawni'r ymchwil dros chwe gwers, awr o hyd, gyda grŵp ffocws o saith disgybl.

*Canfyddiadau a dadansoddiad*

Yn ystod fy nghyfnod archwilio ar y dechrau, dwedodd llai na phumed rhan o'r disgyblion eu bod nhw bob amser yn deall yr adborth, a dwedodd mwy na thri chwarter nad oedden nhw'n ei ddeall rywfaint o'r amser neu drwy'r amser. Mae'r ffigurau cychwynnol hyn ac ymatebion y disgyblion i gwestiynau ar adborth yn awgrymu bod angen newid.

Fe gwblhaodd y disgyblion holiadur hefyd a ofynnodd iddyn nhw a oedden nhw'n deall ystyr tôn, lliw, cyflwyniad, manylion a graddfa. Dewiswyd y termau hyn gan y cân nhw eu defnyddio'n aml wrth roi adborth a chyfarwyddiadau. Un yn unig o'r saith disgybl a roddodd atebion cywir, ac atebodd y disgyblion eraill naill ai nad oedden nhw'n deall y termau hyn neu iddyn nhw eu diffinio mewn cyd-destun gwahanol neu mewn ffordd anghywir.

Rhoddwyd holiadur i'r staff hefyd ar eu barn ar adborth. Gwelwyd bod consensws bod adborth yn bwysig, ond dwedodd tri chwarter ohonyn nhw eu bod yn credu bod disgyblion yn eu dosbarth isel eu gallu yn ei ddeall 'weithiau' yn unig. Dwedodd chwarter o'r staff y bydd disgyblion yn eu dosbarth isel eu gallu yn ei chael hi'n anodd gweithio'n annibynnol a dwedodd ychydig llai na hanner nad yw'n ymddangos eu bod yn hyderus pan fyddan nhw'n gweithio.

Daeth tair thema eang i'r amlwg o ganlyniad i godio'r data:

- Cymhelliant a hyder
- Deall y dasg
- Deall y geiriau allweddol

Yna cafodd y themâu hyn o'm casgliad data cyntaf, o'u croes-gyfeirio â nod fy ymchwil, eu distyllu yn is-themâu:

- Dysgu annibynnol a sgiliau meddal megis ymddygiad a chymhelliant
- Ansawdd y gwaith
- Iaith a dealltwriaeth

Yna daeth y themâu hyn yn sail ar gyfer fy ymchwil i'r llenyddiaeth ehangach er mwyn magu gwybodaeth a mewnwelediad dwysach, i'm helpu i ddeall y materion,  datblygu ymateb pedagogaidd priodol a gwerthuso unrhyw effaith a gefais.

*Llenyddiaeth allweddol*

Caiff Asesu ar gyfer Dysgu neu asesu ffurfiannol ei ddiffinio gan y Grŵp Diwygio Asesu (2002: 2) fel hyn: 'Y broses o geisio a dehongli tystiolaeth i'w defnyddio gan ddysgwyr a'u hathrawon i gael penderfynu ble mae'r dysgwyr yn eu dysgu, i ble y bydd angen iddyn nhw fynd, a'r ffordd orau i gael cyrraedd yno'. Mae Gipps *et al*. (2000, dyfynnwyd yn Hargreaves, 2005: 215) yn disgrifio Asesu ar gyfer Dysgu fel defnyddio'r wybodaeth a fagwyd drwy asesu i gael adnabod a fyddai angen bwrw golwg eto ar y dasg, amser i gael rhagor o ymarfer, neu symud i ran nesaf y dysgu. Yn nisgrifiad Wiliam (2006, dyfynnwyd yn Education Scotland, dim dyddiad) asesu ffurfiannol yw'r offer a ddefnyddir i wella dysgu a chyraeddiadau drwy addasu'r addysgu, yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth gyraeddiadau blaenorol y disgyblion.

Bydd Black *et al* (2004: 2) yn dweud o'r dystiolaeth mewn dros 250 erthygl, ni ellir gwadu'r effaith bositif a fydd gan asesu ffurfiannol i godi cyrhaeddiad disgyblion. Bydd ymchwil yn datgan, er mwyn hybu dysgu, ei bod yn hanfodol bod asesu ffurfiannol yn dod yn gonglfaen dysgu ac addysgu yn hytrach nag yn dasg 'ticio blychau' neu'n 'ychwanegyn' (DCSF, 2008; Donaldson, 2015).

Wrth ysgrifennu ar asesu, bydd llawer o ymchwilwyr yn ysgrifennu am 'fwlch' trosiadol – lle y gallai'r 'bwlch' gyfeirio at y gofod rhwng ble mae'r disgyblion yn eu dysgu a ble maen nhw'n anelu i fod neu ble mae'r athro yn anelu iddyn nhw fod (Weeden *et al*., 2002; Price *et al*., 2010; Hargreaves 2005; Hughes 2014). Gellir disgrifio Asesu ar gyfer Dysgu, felly, fel y cyfrwng sy'n gallu cau'r gofod yma a symud y dysgwyr ymlaen.

Yna rwy'n cyfeirio fy adolygiad o'r llenyddiaeth i gael ystyried y cwestiwn: *Sut gall asesu ffurfiannol gael ei weithredu'n effeithiol o fewn sefyllfa gelfyddyd ADY i hybu ac i hwyluso dysgu annibynnol?*

Y broblem a oedd gen i, a finnau'n athro celf, a wnaeth arwain at y ffocws hwn, oedd ei bod yn anodd gwybod pa fath o beth yw asesu ffurfiannol 'effeithiol' a sut  gellir ei weithredu'n ymarferol. Bydd natur goddrychol y gwaith a gaiff ei greu mewn celf, a'r angen am gysondeb ysgol-gyfan o ran adborth, yn ei gwneud hi'n anodd darparu adborth yn effeithiol ac yn rheolaidd gan ystyried ar yr un pryd ddisgwyliadau a dulliau'r adran a rhai ehangach yr ysgol.

Her arall a wynebais yn fy addysgu oedd cael hyd i ffyrdd ystyriol ac effeithiol i blannu strategaethau asesu ffurfiannol yn rhan o'm haddysgu, gan gyflawni'r cwricwlwm, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a'r Cwricwlwm Cymreig[4] ar yr un pryd.

Mae asesu ffurfiannol yn y celfyddydau yn heriol. Mewn arolwg diweddar o'r arfer orau yn y celfyddydau creadigol, mae Estyn (2016: 37) yn datgan bod 'athrawon yn cynnig adborth ffurfiannol cyson i'r disgyblion a fydd yn canolbwyntio ar feini prawf llwyddiant clir'. Felly, daeth yn amlwg bod angen i'r meini prawf llwyddiant fod yn glir ac yn bendant ond, er mwyn i hyn gael digwydd, bydd angen i athrawon wybod beth maen nhw'n ei ddisgwyl oddi wrth y disgyblion.

Dechreuais gwestiynu sut bydd athrawon celf yn deall cysyniad *ansawdd* a beth gellid ei ystyried yn ddarn o waith cyflawn dymunol, neu'r 'safon aur' ar gyfer gwaith disgyblion. Bydd hyn yn beth goddrychol iawn yn aml, yn anodd ei fynegi mewn geiriau, ac 'ym mhen' yr athro. Ond bydd disgwyl i'r disgyblion weithio tuag ato. Mae Cowley (2005) yn nodi hefyd mor anodd yw aros yn ddi-duedd wrth gymharu gwaith yn erbyn ei gilydd. Felly mae bod yn benodol yn bwysig dros ben.

Daw fy nghysyniad innau o ran gwaith o safon o brofiad blaenorol yn berson graddedig mewn Celfyddyd Gain, ac o sgyrsiau anffurfiol gyda'm pennaeth adran. O ganlyniad, gan fod profiad pawb yn wahanol, bydd hyn yn creu amrywiaeth ym marn ysgolion ar ansawdd gwaith; sydd yn y pen draw yn dibynnu ar farn yr athro unigol. Yng nghyd-destun cyflawni cynlluniau gwaith, gall hyn greu diffyg parhad rhwng disgwyliadau'r athrawon a dealltwriaeth disgyblion ynglŷn â'r hyn y maen nhw'n anelu ato.

Mae Day (1985 yn Gruber, 2008) yn adleisio'r rhwystr hwn y mae asesu celf yn ei osod oherwydd natur oddrychol y gwaith gan ddweud bod y categorïau a ddefnyddir i gael asesu'r gwaith yn eu herbyn yn aneglur ac na fyddan nhw bob amser yn hyrwyddo dysgu pellach. Wrth adfyfyrio ar hyn, un o'm nodau allweddol yw helpu'r disgyblion i gaffael geirfa graidd celf, gan ddeall ystyr y termau allweddol a sut maen nhw i'w gweld mewn darnau go iawn o waith. Drwy wneud hyn, dylai'r disgyblion fod yn gallu deall cyfarwyddiadau a nodau gwersi yn well, a gweithio'n fwy annibynnol.

O ran sut olwg sydd ar y categorïau a'r geiriau hyn yn ymarferol, mae Sweller et al. (1998 dyfynnwyd yn Shute, 2007:7) yn dadlau y bydd defnyddio enghreifftiau yn lleihau'r 'baich gwybyddol ar gyfer myfyrwyr isel eu gallu'. O'r blaen, fe wnes i roi ond un enghraifft ardderchog wrth gyflwyno pwnc neu ddarn newydd o waith. O ganlyniad i'r llenyddiaeth, roeddwn i wedi meddwl y gallai nifer o enghreifftiau yn dangos lefelau gwahanol o ansawdd ym mhob categori fod wedi helpu'r disgyblion i ddeall ac wedi ysgafnhau'r baich gwybyddol. Yn ogystal, gallai defnyddio enghreifftiau eraill, ac nid dim ond un gwych a fyddai bron yn amhosib ei chyrraedd, wella cymhelliant a hunan-effeithiolrwydd y disgyblion.

Fel y crybwyllwyd ar ddechrau'r erthygl hon, roeddwn am gael hyd i ffordd i wella cymhelliant, hyder ac ansawdd y gwaith a wnaed gan y disgyblion yn fy ngrŵp ffocws drwy roi offer iddyn nhw

[4] Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2013) a'r Cwricwlwm Cymreig (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru, 2003) yn ofynion statudol yn ysgolion Cymru.

gael cyflawni rhywbeth y bydden nhw'n falch ohono. Roedd ail-feddwl Asesu ar gyfer Dysgu, cynrychioli disgwyliadau mewn ffordd weledol, ac ystod o enghreifftiau i'w gweld, yn ffyrdd da i gael symud ymlaen.

*Datblygu system sgaffaldio weledol ar gyfer asesu ffurfiannol*

Roedd fy mhrosiect yn canolbwyntio i ddechrau ar ymchwil cyffredinol i effeithiolrwydd adborth. Pan ddechreuodd fy ymchwil, y teitl gweithredol arno oedd 'Defnyddio adborth i helpu disgyblion ag ADY i ddysgu'.

Yn ystod y cyfnod archwilio, drwy weithgareddau llais y disgyblion, roedd yn glir na allai'r disgyblion gyrchu eu hadborth. Y ddau brif reswm am hyn oedd deall yr adborth a'u gallu i ddarllen yr adborth ysgrifenedig. Am fod angen cael cysondeb ysgol gyfan, cyn yr ymyriad roedd yr adborth yn cynnwys model o'r Hyn a Aeth yn Dda (WWW) a Hyd yn Oed yn Well Os (EBI) ac roedd fel arfer wedi'i lunio o 4 brawddeg.

Dechreuais drwy wneud newidiadau bach yn fy ymarfer drwy ddefnyddio cylch ymholi syml sef ystyried, cynllunio, gwneud ac adolygu. Yn ystod y cyfnod datblygu hwn fe wnes i redeg pedwar cylch ymholi:

1. Fe wnes i ddylunio sticer a oedd â chiwiau gweledol ar gyfer gwybodaeth a gwneud yr adborth yn fwy cryno.

2. Fe wnes i sylweddoli nad oedden nhw'n deall rhai geiriau, e.e. 'cyflwyniad' mewn cyd-destun celf, fellu bu rhaid i fi ddatblygu'r sticer ymhellach.

3. Fe wnes i addysgu'r geiriau ac ychwanegu symbolau perthnasol i'r sticer yn giwiau gweledol pellach.

4. Fe wnes i sylweddoli bod y sticer yn gam cyntaf ac yn hytrach roedd rhaid i fi ganolbwyntio ar helpu disgyblion i ddeall y geiriau yn weledol a gwybod sut i'w gweithredu er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r adborth.

Yn ystod pob cylch, roedd trafodaethau anffurfiol a gwerthuso gan ddisgyblion wedi adnabod fersiwn nesaf y sticer.

Yn ystod y pedwerydd cylch, roeddwn am ddefnyddio'r system yn fwy eang i gael addysgu disgyblion sut i adnabod beth roedd ei angen a sut i wella'u gallu a'u sgiliau drwy ddefnyddio Asesu ar gyfer Dysgu effeithiol. Penderfynais ganolbwyntio ar fy nhermau celfyddydol mwyaf cyffredin eu defnydd:

- Tôn
- Lliw
- Cyflwyniad
- Manylion

Dros gyfnod o bedair gwers, wrth weithio ar un prosiect celf, cafodd y disgyblion eu cefnogi i ganolbwyntio ar un o'r categorïau allweddol hyn. Fe wnaethon nhw ddefnyddio'r dull Asesu ar gyfer Dysgu newydd o ran un term allweddol y wers.

Roedd dwy elfen glir gan fersiwn derfynol y system hon ar gyfer Asesu ar gyfer Dysgu yn fy ystafell ddosbarth. Y gyntaf oedd y sticer (ffig. 1) a gafodd ei ddatblygu mewn sawl cylch, i gynorthwyo'r disgyblion i asesu eu sgiliau nhw eu hunain a sgiliau eu cyfoedion. Yr ail oedd peidio â defnyddio un enghraifft ardderchog gan yr athro yn unig. Yn hytrach cafodd y disgyblion bum enghraifft gwahanol eu hansawdd a ganolbwyntiodd ar y thema ar gyfer y wers honno, e.e. tôn. Ar y dechrau fe wnaeth y disgyblion weithio'n gydweithredol i gael gosod yr enghreifftiau mewn trefn o anfoddhaol hyd at eithriadol a chawson nhw eu hannog i fynegi pam roedden nhw yn y drefn arbennig honno. Yna fe wnaeth y disgyblion ddefnyddio hyn yn arwydd gweledol yn y wers ac fe wnaeth eu helpu i ddeall sut i wella'u gwaith.

Mae Corden (2000 dyfynnwyd yn Hodgen a Marshall, 2005), yn diffinio sgaffaldio yn gyfrwng hwyluso dysgu drwy ddefnyddio cyfleoedd dysgu trefnedig a fydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu ac ymestyn eu gwybodaeth bresennol. Drwy wahaniaethu ansawdd y deilliannau disgwyliedig a darparu cyfleoedd dysgu o lefelau gwahanol, fy nod oedd bod pob un o'r disgyblion yn teimlo wedi'u grymuso ac yn teimlo y gallen nhw gyrraedd o leiaf un o'r safonau.

Fe wnaeth hyn y disgwyliadau yn eglur hefyd ac, fel y dywed Gruber (2008), gall defnyddio canlyniadau gwrthrychol a fydd yn ymwneud yn benodol â meini prawf clir leihau'r amwysedd. Mae Shute (2007) yn nodi bod yr amwysedd a'r diffyg sicrwydd yn anesmwytho i ryw raddau ac, felly, gallai lleihau hyn godi lefel y cymhelliant. Felly, drwy ganolbwyntio ar wneud y broses adborthi ac asesu yn fwy eglur, roeddwn yn credu y byddai'n gwella cynnydd y disgyblion hyn (ac fe wnaeth) ac yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr mwy hyderus ac annibynnol. Cefais fod disgyblion, am eu bod yn fwy ymwybodol o'r broses adborthi ac asesu, wedi cymryd mwy o ddiddordeb ac wedi'u hysgogi i wneud cynnydd am eu bod yn gallu adnabod y cynnydd hwnnw.

Mae Black *et al* (2004) yn disgrifio sut gall adborth ysgrifenedig yn aml fod yn beth ymwybodol, ond mae'n bosib na fydd yn cynnig i ddysgwyr y wybodaeth neu'r arweiniad digonol y bydd ei angen er mwyn gwella. Drwy ddefnyddio'r system sgaffaldio hon, cefais fod diben yr adborth roeddwn yn ei roi i'r disgyblion yn ystod y wers yn helpu'r disgyblion i gyrraedd y safon nesaf. Fe wnaeth hyn eu galluogi i symud ymlaen â'u dysgu, yn rhannol drwy blannu, yn weledol ac yn ginesthetig, ystyron y termau y buon ni'n canolbwyntio arnyn nhw.

Mae Wiliam (2011: 66-67) yn esbonio sut y dewisodd athro dri darn enghreifftiol o waith oddi wrth y dosbarth ac yna gofynnwyd i'r disgyblion esbonio elfennau 'da' y darnau hyn o waith. Mae Wiliam yn parhau drwy ddweud sut mae dau ddiben pwysig i hyn. Y cyntaf yw ei fod yn rhoi 'enghreifftiau pendant' i ddangos sut olwg sydd ar ddarn 'da' o waith. Yr ail yw ei fod yn galluogi'r disgyblion i ymgysylltu mwy â'r broses adborthi. Gan ei bod yn fwy heriol yn wybyddol iddyn nhw gael cymharu eu gwaith â gwaith enghreifftiol, gan gydnabod cryfderau a gwelliannau, mae hyn yn well na derbyn adborth oddi wrth athro neu gyd-ddisgybl yn unig. Yn yr un ffordd, cafodd fy 'enghreifftiau dangosol' eu defnyddio hefyd yn ystod sesiwn lawn yn y wers ar asesu gan gyfoedion a hunan-asesu. Rhoddodd hyn y cyfle i'r disgyblion asesu eu gwaith a defnyddio'u sgiliau llafaredd i asesu gwaith un o'u cyfoedion.

Ysgrifennais ar ddechrau'r erthygl hon mai fy nod oedd bod disgyblion yn dod yn fwy annibynnol a'u bod yn deall terminoleg artistig yn well, ac roedd hyn er mwyn iddyn nhw gael gwneud yr un cynnydd cymharol â'r dosbarthiadau prif ffrwd. Bu'r disgyblion yn dangos drwy eu gwaith eu bod yn deall beth roedd disgwyl iddyn nhw ei wneud, ac fe wnaethon nhw geisio datrys problemau eu hunain drwy ofyn i'w cyfoedion a thrwy fynd i edrych ar enghreifftiau ar y bwrdd heb ofyn am gymorth nifer o weithiau yn ystod y wers.

Canlyniadau'r ymyriad oedd bod ansawdd eu gwaith yn well, eu bod yn deall terminoleg artistig yn well a bod lefel yr hyder a'r cymhelliant yn codi.

Dangosodd trafodaethau gyda'r grŵp ffocws eu bod yn gwerthfawrogi gweld enghreifftiau gan eu bod nhw'n gallu gweld ble roedden nhw'n meddwl y gallen nhw fynd yn 'anghywir', roedden nhw'n gwybod i gymryd eu hamser, ac fe wnaethon nhw sôn bod mwy o hyder  ganddyn nhw a'u bod nhw bron wedi synnu gan faint roedden nhw wedi'i gyflawni.

Fe wnaeth ansawdd gwaith y disgyblion wella hefyd, ac fe wnaeth y gwaith cyn yr ymyriad gael ei groes-safoni gan fy Mhennaeth Adran yn waith lefel 4 a'r gwaith wedi'r ymyriad yn lefel 5-6. Mae'r gwaith yn dangos eu bod yn deall pob un o'r termau yn well drwy'r defnydd ar dôn ar yr wyneb, ansawdd eu cyflwyniad o'i gymharu â gwaith blaenorol, a'r manylion a ychwanegwyd.



Ffig. 2 – *Gwaith a wnaed cyn yr ymyriad*



Ffig. 3 – *Gwaith a wnaed wedi'r ymyriad*

Gallai disgyblion â chymorth canllawiau brawddegau, ysgrifennu yn hyderus am eu gwaith a gwaith eu cyfoedion (fel y mae'r darnau hyn o'r taflenni gwaith yn ei ddangos):

'Rwyf wedi defnyddio manylion yn dda am ei fod yn ddestlus ac mae cyferbyniad da ganddo. Rwyf wedi cyflwyno fy ngwaith yn dda am ei fod yn dal y llygad'

'Mae i'w weld yn fanwl iawn gan fod esgyrn y bochau yn gryf. Mae hi wedi arlliwio'r darnau tywyll a'r darnau golau'

Roedd llawer llai o ofn gwneud 'camgymeriadau' arnyn nhw. Gellid dadlau bod

creadigrwydd y disgyblion wedi'i gyfyngu gan ganllawiau'r system sgaffaldio ond,

wrth i'r disgyblion ddod yn fwy hyderus, y nod yw y bydd llai o angen y system neu y

bydd wedi'i datblygu i alluogi mwy o ryddid.

*Adfyfyriadau ar ymgymryd ag ymchwil gweithredol*

Mewn system addysg sy'n bythol newid lle mae'n ymddangos y bydd ffactorau allanol yn rheoli gormod ar rôl yr athrawon, bydd yr angen i athrawon fod yn ymchwilwyr yn helpu i adennill rhywfaint o'r rheolaeth yma a gwneud newidiadau a fydd o fudd uniongyrchol i ddysgu'r disgyblion – a hyn ddylai fod yn ffocws canolog i ni bob amser. Mae'r ffaith bod ysgolion yn fannau prysur yn gallu golygu weithiau ei bod yn anodd rhoi digon o sylw i brofiadau dysgu ac addysgu disgyblion.

Rwyf yn credu bod gwir angen i'r ysgolion gael bod yn gartrefi i ymchwilwyr gweithredol, er fy mod yn cydnabod yr anawsterau y bydd hyn yn ei olygu gydag ymrwymiadau addysgu, y cymorth a fydd yn ofynnol a'r amser i wneud yr ymchwil yma. Cawn ein hannog i fod yn adfyfyriol yn athrawon, fodd bynnag mae ymchwilydd gweithredol yn ymarferydd adfyfyriol ond â thechnegau casglu data a llythrennedd ymchwil yn ogystal ganddo/ganddi i wneud synnwyr o'r adfyfyrio (Denscombe 2014; Bell, 2010).

Mae ymchwil gweithredol ac arweinyddiaeth athrawon yn effeithio'n bositif ar hyder a morâl yr athrawon hefyd. Yn ddiweddar adroddwyd yn *The Independent* (Cassidy, 2015) i astudiaeth a wnaed gan yr NUT ganfod bod mwy na hanner yr athrawon yn ystyried gadael addysgu o fewn y ddwy flynedd nesaf. Os bydd athrawon yn mynd i fod â mwy o ymreolaeth dros eu hymarfer, rwy'n credu y byddan nhw'n fwy tebygol o aros.

Rwy'n credu hefyd ei bod yn bwysig cynnal sgyrsiau gyda ffrindiau beirniadol. Drwy gydol fy ngwaith ymchwil, fe wnes i gynnal sgyrsiau yn rheolaidd gyda fy Mhennaeth Adran ac arweinwyr uwch yn yr ysgol er mwyn cael mewnwelediadau eraill i'm hymchwil, i helpu i ddeall fy nata, ac i glywed oddi wrth ymarferwyr a oedd yn fwy profiadol na minnau. Mae Llywodraeth Cymru (2010) yn sôn am y ddeialog a ddylid ei chreu gan adborth a fydd yn arwain at gynnydd y disgyblion. Rwy'n credu hefyd bod hyn yn berthnasol i athrawon ac y bydd sgyrsiau parhaus o fewn a rhwng adrannau ac athrawon yn gyffredinol yn hollbwysig os ydym yn mynd i symud ymlaen. Os gall ymchwil ymarferwyr o bosib effeithio'n bositif ar fywydau disgyblion, rwy'n credu ein bod yn gwneud anghymwynas â nhw drwy beidio â'i wneud neu ei rannu.

Drwy ymgymryd â'r ymchwil hwn, rwyf wedi dod yn fwy adfyfyriol, yn gwerthuso ac yn gwneud newidiadau yn fy ymarfer drwy fod yn deall yn well y berthynas rhwng cyd-destun yr ystafell ddosbarth, yr athro a'r disgybl. Rwyf wedi dod yn fwy rhagweithiol wrth siarad ag adrannau ac wrth rannu arfer dda gyda nhw; rwyf wedi dod yn fwy ymwybodol o rwystrau i ddysgu y gallai'r disgyblion eu hwynebu ac rwyf wedi gweld effaith o fewn fy adran oherwydd y defnydd o'r system sgaffaldio mewn dosbarthiadau prif ffrwd hefyd. Rwyf wedi dod yn gyfrifol am CA3, ac rwyf wedi parhau i weithredu a datblygu offer a fydd â'r nod i gael gwneud adborth ac asesu yn fwy penodol a hygyrch.

Yn ogystal â gweld effaith ar fy addysgu yn yr ystafell ddosbarth, mae wedi rhoi ynof yr awydd i barhau i ymchwilio a dysgu er mwyn darparu'r profiadau dysgu gorau y gallaf i'r disgyblion.

Dyma gyngor Smith (2013: 4): 'Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r defnydd ar y celfyddydau i helpu i gyflawni llythrennedd a rhifedd gwell ac i leihau'r bwlch o ran cyrhaeddiad'. Rwy'n gobeithio, drwy barhau i wneud a rhannu ymchwil gydag ymarferwyr eraill, bydd pwysigrwydd y celfyddydau yn y cwricwlwm yn parhau i ddod yn fwy amlwg.

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd